CYFRAN DEG?

GWYBODAETH GEFNDIR

Cyflwyniad

Pam y dylem dalu treth? A ydym ni i gyd yn talu ein cyfran deg? Beth yw'r ffordd orau i dalu am y pethau y mae arnom i gyd eu hangen i fyw bywydau iach, hapus a diogel? Gall yr atebion i'r cwestiynau hyn fod yn ddadleuol. Wrth chwarae'r gêm efelychu, bydd y dysgwyr yn trafod ac yn llunio eu casgliadau eu hunain ynghylch trethiant, ac a yw pawb yn talu eu cyfran deg. Byddant hefyd yn myfyrio ar y modd y gellid gwneud pethau yn decach.

Bydd yr adnodd byr hwn ar gyfer plant 7-14 oed yn helpu'r dysgwyr i werthfawrogi pam y mae'n bwysig talu treth, a bydd yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o beth yw treth, y modd y mae'r arian yn cael ei wario, a'n cyfrifoldeb ar y cyd am wasanaethau cyhoeddus.

Treth, anghydraddoldeb a thlodi

Y llynedd, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn biliwnyddion erioed, gyda biliwnydd newydd yn cael ei ychwanegu at y rhestr yn amlach na phob dau ddiwrnod. Gwelodd y biliwnyddion hyn, y mwyafrif helaeth ohonynt yn ddynion, eu cyfoeth yn cynyddu $762 biliwn mewn 12 mis. Gallai'r cynnydd enfawr hwn fod wedi dod â thlodi eithafol byd-eang i ben saith gwaith drosodd. Yn hytrach, y llynedd aeth 82% o'r cyfoeth a grëwyd ledled y byd i'r 1% cyfoethocaf, tra na welodd hanner tlotaf y byd unrhyw gynnydd yn eu cyfoeth o gwbl.[1]

Mae'r cyfoethog yn aml yn cael hwb i'w cyfoeth trwy osgoi talu trethi – gan unigolion cyfoethog a chan y cwmnïau y maent yn berchen arnynt neu'n gyfranddalwyr ohonynt. Mae biliynau o ddoleri wedi'u cuddio mewn hafanau trethi; rhoddir pwysau ar lywodraethau i ddarparu seibiannau treth, esemptiadau, a chyfraddau treth is, a hynny fel y gall y corfforaethau tra-chyfoethog a rhyngwladol dalu cyn lleied o dreth â phosibl.

Trwy dalu trethi, rydym yn ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd am wasanaethau hanfodol megis ysgolion, ysbytai, ffyrdd a dŵr glân. Dyma'r pethau y mae arnom i gyd eu hangen i fyw bywydau iach, hapus a diogel. Yn gyffredinol, ystyrir bod talu trethi yn beth da, ond mae'r symiau y mae pobl a busnesau yn eu talu yn aml yn destun dadl fawr. Pan nad yw pobl yn talu eu cyfran deg o dreth, y bobl dlotaf sydd fwyaf ar eu colled gan mai nhw yw'r bobl sy'n dibynnu fwyaf ar y gwasanaethau cyhoeddus y mae trethi yn talu amdanynt.

Mae casglu'r trethi y mae eu hangen i fuddsoddi yn y gwasanaethau hanfodol hyn, megis gofal iechyd ac addysg, yn arbennig o anodd yn rhan ddeheuol y byd. Amcangyfrifir bod y gwledydd hyn yn colli o leiaf $170 biliwn bob blwyddyn mewn refeniw trethi heb eu talu gan gorfforaethau a'r tra-chyfoethog. [1] Mae'r bobl dlotaf yn y byd (y mae mwy ohonynt yn fenywod nag yn ddynion) yn colli biliynau o bunnoedd bob blwyddyn, a hynny oherwydd rheolau sy'n caniatáu i aelodau cyfoethocaf cymdeithas osgoi talu trethi.

Mae Oxfam yn credu bod angen i lywodraethau a chwmnïau helpu ar frys i greu cymdeithas fwy cyfartal, a hynny trwy flaenoriaethu gweithwyr cyffredin a chynhyrchwyr ar raddfa fach, yn hytrach na'r cyfoethog a'r pwerus.

---

[1] *Oxfam (2018) Reward Work, Not Wealth: To end the inequality crisis, we must build an economy for ordinary working people, not the rich and powerful.*
policy-practice.oxfam.org.uk/publications/reward-work-not-wealth-to-end-the-inequality-crisis-we-must-build-an-economy-fo-620396

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Rydym yn ymgyrchu dros y canlynol:

- Bod y cwmnïau a'r unigolion cyfoethocaf yn talu eu cyfran deg o dreth
- Bod gwasanaethau cyhoeddus yn rhad ac am ddim i bawb
- Cael gwaith teilwng, cyflog byw a diwedd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Rhagor o adnoddau a chymorth

- Darllenwch adroddiad diweddar Oxfam ar gyfoeth ac anghydraddoldeb:

  Oxfam (2018) Reward Work, Not Wealth: To end the inequality crisis, we must build an economy for ordinary working people, not the rich and powerful.

  policy-practice.oxfam.org.uk/publications/reward-work-not-wealth-to-end-the-inequality-crisis-we-must-build-an-economy-fo-620396

- Dysgwch ragor ynghylch i ba raddau y mae 20 o fanciau gorau'r UE yn defnyddio hafanau trethi, ac ym mha ffyrdd:

  Oxfam (2017) Opening the Vaults: The use of tax havens by Europe's biggest banks

  policy-practice.oxfam.org.uk/publications/opening-the-vaults-the-use-of-tax-havens-by-europes-biggest-banks-620234

- I gael rhagor o wybodaeth am y modd y mae'r hafanau trethi yn hybu'r argyfwng anghydraddoldeb, rôl y DU yn y system hafan trethi fyd-eang, a'r hyn y gall y llywodraeth ei wneud yn ei gylch:

  Oxfam (2016) Ending the Era of Tax Havens: Why the UK government must lead the way

  policy-practice.oxfam.org.uk/publications/ending-the-era-of-tax-havens-why-the-uk-government-must-lead-the-way-601121

- Defnyddiwch adnoddau mathemateg Oxfam i ymchwilio i'r anghydraddoldeb sy'n bodoli mewn gwledydd, a rhwng gwledydd. Gweler *Pawb yn Cyfri* (ar gyfer disgyblion 8 i 12 oed) a *Mwy neu Lai'n Gyfartal?* (ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed):
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/everyone-counts
  - www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-maths

- Mae trethiant, yn enwedig faint o dreth y mae pobl a busnesau yn ei dalu, yn aml yn bwnc llosg. Gweler canllaw Oxfam *Addysgu Pynciau Llosg* i gael cymorth ynglŷn â'r modd i gynnal sgwrs ystyrlon am bynciau cymhleth a heriol yn yr ystafell ddosbarth:

  www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues

- I gael rhagor o wybodaeth am ymgyrch Oxfam i frwydro dros anghydraddoldeb a threchu tlodi, a'r modd y gallwch chi gymryd rhan:

  www.oxfam.org.uk/get-involved/campaign-with-us/inequality-and-poverty

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.